| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Gorffennaf 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniad dros Ofal Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant ac Oedolion)** |
| **Swyddog:** | **Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth, Strategaeth a Chefnogaeth Gynnar** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaeth Ymyrraeth, Strategaeth a Chefnogaeth Gynnar** |
| **Teitl:** | **Teuluoedd yn Gyntaf** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cynnydd y darparwyr hyd yn hyn wrth gyflwyno eu gwasanaethau, Cynllun Gweithredu Teuluoedd yn Gyntaf a Chanlyniad 4 o'r Cynllun MAWR.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybodaeth ynghylch cyflwyno prosiectau Teuluoedd yn Gyntaf hyd yn hyn, er mwyn sicrhau bod yr holl brosiectau sydd wedi'u comisiynu:

- ar y trywydd cywir i gyflwyno'r canlyniadau disgwyliedig yn unol ag amcanion eu tendr;
- yn cyflwyno canlyniadau gwell ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth;
- yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'r adnoddau ariannol a ddarparwyd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Mae'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn darparu arsylwadau ar gynnydd hyd yn hyn o ran cyflwyno Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol sy'n hyrwyddo datblygiad systemau a chefnogaeth aml asiantaeth effeithiol, yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tlodi. Bydd Teuluoedd yn Gyntaf, ynghyd â Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf, yn helpu i gyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fodel dinasyddiaeth sy'n cyflwyno gwasanaeth hygyrch, esmwyth yn y gymuned gan bobl fedrus, sy'n cydweithio i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb yn well i anghenion unigol.

4.2 Cyngor Sir Ddinbych sydd yn gweinyddu'r Rhaglen rhwng 2011-15, a dyrannwyd grant dros y tair blynedd ddiwethaf i Sir Ddinbych o £1.3m y flwyddyn. Cynhelir y rhaglen hyd at 2017.

4.3 Prif ofynion y Rhaglen yw:

- Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd (FfATC) (asesiad cynnar o anghenion teulu ac ymyrraeth aml asiantaeth mewn da bryd);
- Tîm o Amgylch y Teulu (cydlynwyr sydd yn cwblhau Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd ac yn cydlynu ystod eang o gefnogaeth y gellir ei gyflwyno mewn modd sy'n addas i'r teulu); a
- gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu'n strategol i gyflwyno cefnogaeth i deuluoedd

4.4 Fe adolygir contractau'r holl wasanaethau a gomisiynwyd ddwywaith y flwyddyn ac mae Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn craffu ar ganlyniad yr adolygiadau. Cafodd contractau eu hymestyn am un flwyddyn (2014-15), a gwnaed newidiadau i rai gwasanaethau. Cafodd contract y Consortiwm Chwarae ei ddigomisiynu ar gyfer 2014-15.

**4.5 Gweithgaredd 2013-14**

4.5.1 Cafodd 377 o deuluoedd eu cyfeirio at raglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2013-14, a daeth y cyfeiriadau o ystod o ffynonellau (gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Ysgolion, gwasanaethau a gomisiynwyd, gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc)

4.5.2 Mae 70 wedi cwblhau Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd drwy Dîm o Amgylch y Teulu (TAT).

4.5.3 Mae 203 o deuluoedd wedi derbyn gwasanaeth a gomisiynwyd drwy Banel Teuluoedd yn Gyntaf (panel aml asiantaeth sy'n cydlynu atgyfeiriadau Teuluoedd yn Gyntaf o dan drothwy Tîm o Amgylch y Teulu). Cafodd cyfanswm o bron i 35,000 o unigolion fynediad i wasanaethau a gomisiynwyd yn ystod 2013/14 (serch hynny, dylid nodi y bydd yna adegau pan fydd unigolion wedi defnyddio mwy un gwasanaeth lawer gwaith (ac felly wedi cael eu cyfrif ddwywaith).

**4.6 Model Cyflwyno Ddiwygiedig 2014-15 ymlaen**

4.6.1 Cynhaliwyd gwerthusiad o broses Panel Teuluoedd yn Gyntaf a Thîm o Amgylch y Teulu ar ddiwedd cyfnod 2013-14 a chafodd nifer o wersi eu dysgu. Cafodd y gwersi hyn, ochr yn ochr â gofynion perfformiad parhaol gan Lywodraeth Cymru, eu hystyried wrth wneud newidiadau i fodel Teuluoedd yn Gyntaf.

4.6.2 Mae'r model cyflwyno newydd wedi cyflwyno ymagwedd gydlynol sydd yn canolbwyntio mwy ar deuluoedd unigol ar draws y rhaglen gyfan drwy Gonsortiwm Cefnogaeth Ieuenctid a Gwasanaeth Cefnogaeth i Deuluoedd (yn hytrach na'r rheini sydd ond yn cael eu cefnogi drwy Dîm o Amgylch y Teulu). Yn ogystal â hyn, mae'r model newydd yn galluogi i'r comisiynwyr dracio a monitro'r gwahaniaeth a wnaed i deuluoedd cyfan ac nid effaith darparwyr gwasanaeth unigol.

4.6.3 Mae gweithredu'r model diwygiedig yn cynnwys Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd (FfATC) yn electronig. Yn 2013-14, cafodd modiwl o fewn y system Capita ei sicrhau (wedi'i weinyddu gan Tîm Data ar ran Cyngor Sir Ddinbych), sydd yn darparu cronfa ddata o gwsmeriaid a pherfformiad ar gyfer y rhaglen gyfan gyda chyfleoedd yn y dyfodol i alinio â Dechrau'n Deg ac Addysg sydd hefyd yn defnyddio Capita. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn dod o hyd i atebion i broblemau diogelwch TG i hwyluso'r gwasanaethau Cefnogaeth i Ieuenctid a Chefnogaeth i Deuluoedd (mae'r ddau yn allanol i Sir Ddinbych).

4.7 Mewn cysylltiad â’r gwaith y soniwyd amdano uchod, mae’r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd wedi llunio Fframwaith Rheoli Perfformiad, a’r nod yw mesur a monitro effaith gwasanaethau ymyrraeth cynnar ar y ddarpariaeth statudol. Bydd yr adroddiad cyntaf sydd yn defnyddio’r fframwaith yma’n cael ei gyhoeddi fis Gorffennaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae’r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn gyfrannwr pwysig i’r:

- Cynllun Corfforaethol: “Pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl”.
- Y Cynllun Mawr: “Canlyniad 4 - Teuluoedd sy’n agored i niwed yn Sir Ddinbych yn cael cymorth i fyw’n rhydd o dlodi, lle medrent fod yn annibynnol a ffynnu”.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Cyfanswm grant Teuluoedd yn Gyntaf Sir Ddinbych yw £1.3m y flwyddyn. Mae dyraniad y grant hwn ar gyfer 2014-15 i’w weld yn *Atodiad 1.*

6.2 Fe fydd yna ostyngiad yn y grant ar gyfer 2015-17, serch hynny nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau’r gyllideb ar gyfer 2015-17 eto.

**7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

7.1 Mae’r asesiad wedi nodi na fydd datblygiad y gwasanaeth hwn yn amharu ar y nodweddion amddiffyn (gweler Atodiad 2).

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda’r Pwyllgorau Craffu ac eraill?**

8.1 Bwrdd Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf.

8.2 Digwyddiad Budd-ddeiliad ar fodel cyflwyno diwygiedig arfaethedig a gofynion datblygu gweithlu (gyda darparwyr Teuluoedd yn Gyntaf).
Gwerthuso model cyflwyno 2012-14 gyda theuluoedd a budd-ddeiliaid. Trosolwg o ymatebion gwerthuso:

8.3 Partneriaeth Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae’n rhaid i’r Rhaglen gael ei chyflwyno o fewn y cyllid sydd ar gael.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 <u>Canllaw Rhaglen 2014-17</u>
Mae pob awdurdod yng Nghymru yn aros am y canllawiau newydd y mae Llywodraeth Cymru wrthi’n eu paratoi. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y peryglon i’r Rhaglen oherwydd yr oedi yma.

10.2 Cyllid 2015-17

Nid ydi'r awdurdodau lleol ar draws Cymru wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â dyraniadau awdurdodau lleol ar gyfer cyfnod 2015-17 eto. Yn ystod cyfarfod fis Hydref 2013, gyda Rheolwr Cyfrif Rhanbarthol Gogledd Cymru oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru, fe awgrymwyd bod yna debygolrwydd o ostyngiad o £2.3m i'r Rhaglen ar draws Cymru ar gyfer cyfnod 2015-16 (gan leihau'r grant i awdurdodau lleol).

10.3 Yr Amserlen yn Llithro

Gallai goblygiadau 10.1 a 10.2 uchod gael effaith negyddol ar yr amserlen dendro, ac felly gallai effeithio ar gyflwyno Rhaglen newydd a gomisiynwyd o 1 Ebrill 2015.

10.4 Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf ar draws Cymru

Does yna ddim awgrym gan Lywodraeth Cymru o fwriad i gyflwyno'r gwasanaethau i deuluoedd diamddiffyn ar ôl 31 Mawrth 2017, hy, a fydd y Rhaglen yn parhau, neu a fydd rhywbeth arall yn cael ei gyflwyno yn ei lle.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthyglau 6.1 a 6.3.4 (b) o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddogion Cyswllt:**
Swyddog Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf – Gwasanaeth Ymyrraeth a Chefnogaeth Gynnar
Ffôn. 01824 712297